



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Gwerthuso Adtrac

Adroddiad Interim:

Crynodeb Gweithredol

Y daith hyd yma
Awst 2020



1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau gwerthusiad o'r prosiect ADTRAC a gynhaliwyd gan Wavehill, cwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd annibynnol ar ran Grŵp Llandrillo Menai (GLLM). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaethpwyd wrth ddarparu ADTRAC hyd at fis Mawrth 2020. Fe'i rhagflaenwyd gan Adroddiad Cychwynnol a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2019, a bydd Adroddiad Terfynol yn ychwanegu ato ar ddiwedd y prosiect.
- 1.2 Mae ADTRAC yn weithrediad a ddarperir ar draws Gogledd Cymru, sy'n ceisio lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ariennir y gweithrediad yn rhannol dan Brosiect Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, Amcan Penodol 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Dan arweiniad GLLM, mae ADTRAC yn dwyn ynghyd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).
- 1.3 Mae ADTRAC yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gyfranogwyr, gan adnabod eu hanghenion unigol a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgymryd ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET). Mae staff ADTRAC wedyn yn gweithio gyda chyfranogwyr i oresgyn y rhwystrau hyn, neu gyfeirio cyfranogwyr at asiantaethau eraill sy'n gallu darparu cymorth addas.
- 1.4 Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y gweithrediad tair blynedd rhwng mis Mawrth 2017 a mis Awst 2020.¹ Yn dilyn gwaith ailbroffilio, fodd bynnag, disgwylir i'r gweithrediad ddod i ben ym mis Mai 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, nod ADTRAC yw cynorthwyo 1,451 o bobl ifanc sy'n NEET ac sy'n wynebu rhwystrau sy'n atal eu llwybr a'u dilyniant i EET.²

2. Amcanion a Methodoleg

- 2.1 Mae'r adroddiad interim hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a sicrhawyd wrth ddarparu ADTRAC tan fis Mawrth 2020. Yn benodol, mae'r gwerthusiad interim yn ceisio nodi:
 - cynnydd y gweithrediad wrth gyflawni ei ddangosyddion perfformiad;

¹ Sylwer. Ar draws y rhanbarth, gwelwyd dyddiadau darparu gwasgarog o ganlyniad i weithgarwch recriwtio i'r tîm.

² Sylwer y diwygiwyd y ffigwr hwn o darged cychwynnol o 1,651 yn dilyn gwaith i ailbroffilio'r gweithrediad.

- effeithiolrwydd prosesau gweithredol a rheoli;
 - effeithiau cynnar y prosiect ar sefydliadau cyflenwi a buddiolwyr y prosiect;
 - argymhellion cychwynnol er mwyn sicrhau gwelliant.
- 2.2 Cwblhawyd y gwerthusiad gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ddamcaniaethau. Yn ymarferol, mae hyn wedi cynnwys datblygu cadwyn resymeg a chyfres o ddangosyddion a ddefnyddiwyd i asesu cynnydd ADTRAC yn erbyn ei nodau prosiect cyffredinol. Mae'r model rhesymeg a'r fframwaith gwerthuso ar gyfer ADTRAC i'w gweld yn yr Adroddiad Cychwynnol.
- 2.3 Er mwyn adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad interim, defnyddiwyd y dulliau ymchwil canlynol:
- Adolygiad o ddata monitro a dogfennaeth allweddol ar draws ardaloedd Cyd-fuddiolwyr, gan gynnwys Data Monitro Cyfranogwyr a ddarparwyd tan fis Mawrth 2020 a Chofnodion Gwersi a Ddysgwyd.
 - Arolwg ar-lein o'r staff a fu'n ymwneud â rheoli a darparu ADTRAC (n = 48), er mwyn deall safbwyntiau am y dull cyflwyno a'r effeithiau tybiedig.
 - Cyfweiliadau un-i-un manwl dros y ffôn gyda staff sy'n ymwneud â rheoli a darparu ADTRAC (n = 9), er mwyn casglu dirnadaeth bellach am y ffordd y cyflwynir y prosiect a safbwyntiau ynghylch prif sialensiau a chryfderau'r model cyflwyno.
 - Cyfweiliadau un-i-un manwl dros y ffôn gyda rhanddeiliaid strategol (n = 9) er mwyn deall ffit strategol y prosiect, a safbwyntiau am y cymorth a roddwyd.
 - Cyfweiliadau un-i-un dros y ffôn gyda chyfranogwyr (n = 30) er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o effaith cymorth ADTRAC ar gyfranogwyr, a safbwyntiau ynghylch sut y cyflwynir y cymorth.
- 2.4 Cynigiwyd yr holl ddulliau casglu data hyn yn ddwyieithog (yn Gymraeg ac yn Saesneg).

3. Daparu'r Prosiect

- 3.1 Mae'r gwerthusiad wedi dod i'r casgliad bod ADTRAC yn cael ei gyflawni'n effeithiol ar hyn o bryd, er bod rhai meysydd i'w gwella. Yn fwy na hynny, nododd rhanddeiliaid fod ADTRAC yn ychwanegu gwerth at y cymorth presennol sydd ar gael i bobl ifanc NEET yng Ngogledd Cymru drwy'r unigolion y mae'n gweithio gyda hwy a'r ffordd y mae'n gweithio gyda hwy.

- 3.2 Dywedodd rhanddeiliaid a staff rheoli a chyflenwi eu bod yn credu bod y cymorth a ddarperir yn briodol i anghenion cyfranogwyr ADTRAC. Yn benodol, roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynglŷn â'i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl hyfforddedig, a'i ffocws ar y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae pob un o'r rhain yn ei osod ar wahân i'r ddarpariaeth bresennol ac yn ei gwneud yn arbennig o addas i gefnogi unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

Darparu'r Prosiect

- 3.3 Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynglŷn â'r ffordd y mae ADTRAC yn cael ei gyflawni, gan gynnwys consensws cryf bod GLLM wedi chwarae rhan effeithiol yn y gwaith o sefydlu a chydlynu'r prosiect. O ganlyniad i'r strwythurau effeithiol a roddwyd ar waith, mae'r awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydweithio i bob pwrpas i gyflawni'r prosiect.
- 3.4 Er y gwelwyd bod Ymarferwyr Iechyd Meddwl hyfforddedig yn ased allweddol i ADTRAC, erys heriau o ran diwallu anghenion iechyd meddwl a lles cyfranogwyr oherwydd heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio rolau Ymarferwyr Iechyd Meddwl mewn rhai ardaloedd Buddiolwyr ar y Cyd. Ystyriwyd bod hyn yn ganlyniad i brosesau recriwtio araf o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn ogystal, nododd rhai aelodau o staff ddryswch ynghylch cydgysylltu'r rolau hyn ac nid oeddent yn siŵr o ble roedd y rheolaeth a'r cyfrifoldebau rhwng Cyd-fuddiolwyr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gyda rhai aelodau o staff yn dweud eu bod yn teimlo bod Ymarferwyr Iechyd Meddwl yn dimau darparu 'hanner mewn a hanner allan'.
- 3.5 Maes pryder arall a godwyd yn ystod y gwerthusiad fu'r System Prynu Dynamig (DPS) a ddefnyddir gan ADTRAC. Cododd staff cyflenwi bryderon yn aml ynghylch effeithiolrwydd y DPS, gyda rhai yn teimlo nad oedd yn 'addas i'r diben'. Nododd staff sut y gallai prosesau 'araf' sy'n defnyddio'r DPS arwain at ymddieithrio cyfranogwyr. Mae hwn yn faes a allai elwa o wella.
- 3.6 Roedd y cyfranogwyr yn arbennig o gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth un-i-un a oedd yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, dylid nodi, gan i'r cyfranogwyr hyn gael eu nodi gan Gyd-fuddiolwyr, efallai nad yw barn cyfranogwyr â phrofiadau mwy negyddol o ADTRAC wedi cael eu cofnodi o fewn y broses. O ganlyniad, dylai gwaith gwerthuso pellach geisio archwilio canfyddiadau carfan ehangach o gyfranogwyr er mwyn sicrhau bod eu barn yn gynrychioliadol o'r grŵp cyfranogwyr ehangach.

Themâu Trawsbynciol

- 3.7 Mae'n ymddangos bod y gwaith yn gwneud cyfraniad da yn erbyn ei dargedau Themâu Trawsbynciol. Mae ADTRAC yn rhagori ar ei darged ar gyfer cyfranogwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, ac yn perfformio'n dda yn erbyn ei darged ar gyfer cyfranogwyr o gefndir BME/Mudol/Lleiafrifoedd Ethnig. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y gwaith yn wynebu mwy o heriau wrth gyrraedd targedau o ran cynnwys cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu a chyfranogwyr benywaidd.
- 3.8 Yn ogystal â chyfrannu at y Themâu Cyflyrau Cronig, mae ymgynghori â rhanddeiliaid strategol yn dangos ymdeimlad clir bod ADTRAC yn cyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ceir tystiolaeth bod y dull a fabwysiadwyd drwy ADTRAC yn cynnwys pob un o'r pum ffordd o weithio sy'n gyfystyr ag 'egwyddor datblygu cynaliadwy' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn benodol, mae'n dangos dull ataliol a gyflawnir drwy gydweithio rhwng cyrff cyhoeddus, gan integreiddio nifer o amcanion llesiant (yn ymwneud yn bennaf â nodau llesiant 'Cymru ffyniannus', 'Cymru iachach' a 'Cymru mwy cyfartal') sy'n ystyried anghenion hirdymor Gogledd Cymru.

Recruitment of Project Participants

- 3.9 Fel rhan o'r gwerthusiad, archwiliwyd perfformiad y prosiect yn erbyn targedau recriwtio. Fel y gwelir yn Nhabl 1.1 isod, mae'n werth nodi nad yw'r prosiect wedi recriwtio cymaint â'r targed erbyn y cyfnod interim hwn. Ar hyn o bryd, mae menywod ac unigolion gyda dyletswyddau gofal plant/gofalu yn benodol yn cael eu tangynrychioli. Yn ogystal, mae'r gweithrediad mewn perygl ar hyn o bryd o beidio â chyrraedd ei dargedau ymgysylltu a'i dargedau ar gyfer canlyniadau, yn enwedig mewn perthynas â chyfran y cyfranogwyr sy'n dechrau gweithio ac yn dechrau addysg/hyfforddiant. Mae'n bosibl bod rhai o'r cyfranogwyr hyn wedi cael eu cefnogi gan raglenni eraill fel prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) Llywodraeth Cymru a ariennir gan ESF, neu ddarpariaeth gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru, ac mae'n bosibl, oherwydd amodau Credyd Cynhwysol, fod pobl ifanc â chyfrifoldebau gofal plant yn llai tebygol o fod yn chwilio am waith.

Tabl 1.1: Targedau cyfranogi a data perfformiad, yn ôl grŵp demograffig

Grŵp cyfranogi	Targed	Targed (%)	Nifer sydd wedi cyflawni	Canran y targed a gyflawnwyd
Cyfanswm y cyfranogwyr	1,451		893	62%
Cyfranogwyr â chyflwr iechyd/anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	112	8%	263	235%
Cyfranogwyr sy'n BME/Mudwyr/Lleiafrifoedd	31	2%	21	68%
Cyfranogwyr â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu	121	8%	56	46%
Cyfranogwyr gwrywaidd	721	50%	509	71%
Cyfranogwyr benywaidd	730	50%	384	53%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

4. Canlyniadau i Gyfranogwyr

- 4.1 Mae'n ymddangos bod ADTRAC yn perfformio'n dda mewn perthynas â chanlyniadau meddal, ond mae wedi bod yn llai llwyddiannus o ran cyflawni canlyniadau caled, yn enwedig mewn perthynas â nifer y bobl ifanc sydd wedi gadael y gefnogaeth i barhau gydag addysg.
- 4.2 Mae'n ymddangos bod y cymorth yn arbennig o lwyddiannus o ran ysgogi gwelliannau mewn sgiliau lles a chyflogadwyedd cyfranogwyr. Ceir tystiolaeth o hyn yn y cynnydd yn sgoriau graddfa lles meddyliol Warwick–Edinburgh (WEMWBS) ar gyfartaledd ar gyfer cyfranogwyr wrth adael y rhaglen. O'r rhai sydd wedi gadael y rhaglen, y sgôr gyfartalog ar ddechrau'r rhaglen oedd 41, gan godi i 51.8 erbyn gadael y rhaglen. Roedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol. O'i gymharu â sgoriau cyfartalog WEMWBS ar gyfer y garfan hon a gasglwyd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n dangos mai'r sgôr WEMWBS gyfartalog ar gyfer y grŵp oedran hwn yng Ngogledd Cymru yw 50.6, mae'n awgrymu bod cyfranogwyr yn ymuno â'r rhaglen gyda lefelau lles sylweddol is na'r cyfartaledd ac yn gadael y rhaglen gyda lefelau lles ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith pobl ifanc 16–24 oed.
- 4.3 Yn yr un modd, ceir tystiolaeth o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol mewn sgiliau a chyflogadwyedd i gyfranogwyr wrth ymadael â'r rhaglen, fel y mae Work Star yn ei ddangos. Wrth ymuno ag ADTRAC, y sgôr gyfartalog a sicrhawyd ar draws y saith elfen oedd 5.91. Wrth adael, roedd y sgôr gyfartalog wedi codi i 7.59. At ei gilydd, roedd 71% o gyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth wedi gweld cynnydd yn eu sgôr Work Star. Pan gaiff mesurau unigol eu dadgyfuno, mae'n ymddangos bod y cynnydd mwyaf wedi cael ei sicrhau mewn

perthynas ag uchelgais a chymhelliant cyfranogwyr, eu sgiliau chwilio am swydd a'u sgiliau swydd a'u profiad.

- 4.4 Mae ADTRAC wedi llwyddo i ostwng nifer y rhwystrau rhag ymgymryd ag EET y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu hefyd. Mae data monitro yn dynodi, rhwng cychwyn a gadael, bod nifer gyfartalog y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu yn gostwng 4 (o 7 rhwystr cyfartalog i 3). Gwelwyd tystiolaeth ansoddol o hyn hefyd, wrth i sawl cyfranogwr a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad interim nodi “na allent hyd yn oed adael y tŷ” cyn iddynt fanteisio ar ADTRAC, ond bod ADTRAC wedi eu galluogi i fynychu sesiynau a rhyngweithio gyda phobl arall. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi arwain at y cyfranogwr yn symud ymlaen i EET.
- 4.5 Er gwaethaf y canlyniadau meddal hyn a gyflawnwyd yn llwyddiannus, fodd bynnag, mae gan y gweithrediad ychydig o waith i'w wneud i gyflawni ei dargedau a'i ganlyniadau caled, fel y dangosir yn Nhabl 1.2 isod. Y tu ôl i'r prif ffigurau hyn, ceir cryn amrywiaeth o ran y canlyniadau sydd wedi'u cyflawni gan awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae Sir Ddinbych wedi bod yn arbennig o gryf o ran cyflawni canlyniadau 'symud ymlaen i gyflogaeth', er yn wannach o ran canlyniadau addysg a chymwysterau. I'r gwrthwyneb, mae Ynys Môn wedi bod yn arbennig o gryf o ran cyrraedd targedau cymwysterau a gwannach mewn mannau eraill, tra bod Wrecsam a Sir y Fflint wedi bod yn gryf o ran targedau addysg/hyfforddiant a chymwysterau, ond maent ymhellach y tu ôl gyda thargedau i mewn i gyflogaeth.

Tabl 1.2: Targedau canlyniadau a data perfformiad

	Nifer y cyfranogwyr a dargedir	Nifer y cyfranogwyr a dargedwyd (cyn ailbroffilio)	Perfformiad hyd yma	% y targed a gyflawnwyd hyd yma
Cyfanswm y cyfranogwyr	1,451	1,651	893	62%
Cyfranogwyr NEET (16–24 oed) yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael	350	350	200	57%
Cyfranogwyr NEET (16–24 oed) yn symud ymlaen i addysg/hyfforddiant ar ôl gadael	270	280	92	34%
Cyfranogwyr NEET (16–24 oed) yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael	367	357	149	41%
Cyfranogwyr sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill³	290	30	337	116%

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

- 4.6 Gan adlewyrchu'r ffigurau hyn, tynnodd cyfweiliadau â rhanddeiliaid strategol a staff cyflawni sylw at bryderon ynghylch pa mor realistig yw targedau'r prosiect. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y pandemig COVID-19 presennol, sy'n debygol o achosi dirwasgiad yng Nghymru, gan wneud y targedau hyn yn anos fyth i'w cyflawni. Fodd bynnag, roedd y farn ynghylch pam yr oedd hyn yn wir yn amrywio. I rai, mae'r rhwystrau niferus a chymhleth a wynebwr gan y bobl ifanc y mae ADTRAC yn ymgysylltu â hwy — mae gan y prosiect lefelau uchel o gyfranogwyr sy'n profi problemau mewn perthynas â diffyg hyder, ynysu cymdeithasol, a phryderon iechyd meddwl megis pryder ac iselder — yn golygu bod angen gwaith hirdymor gyda chyfranogwyr.
- 4.7 Mynegwyd pryderon gan sawl aelod o staff a rhanddeiliaid strategol bod y dull ar gyfer y targedau yn canolbwyntio ormod ar ganlyniadau caled, a'i fod yn peryglu colli pwysigrwydd canlyniadau mwy meddal i rai cyfranogwyr. Awgrymwyd y gallai barnu'r prosiect yn seiliedig ar ei ganlyniadau caled yn unig daflu cysgod dros ddylanwad canlyniadau meddal, megis sefydlogi bywyd person ifanc, ar daith person ifanc. Gallai hyn awgrymu y gallai'r prosiect

³ Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Sicrhau mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Sicrhau rhan-gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb ei achredu
- Sicrhau ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Cychwyn ar gwrs addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli
- Cychwyn cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
- Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Cychwyn ar hyfforddeiaeth
- Gwelliant o ran eu lles meddyliol
- Gwelliant mewn canlyniadau meddal

elwa o fwy o bwyslais ar gasglu canlyniadau mwy meddal yn ogystal â darparu cymorth ychwanegol i droi canlyniadau meddal yn ganlyniadau mwy pendant, megis profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli strwythuredig — neu gyfeirio cyfranogwyr at raglenni eraill a fydd yn cynnig y cyfleoedd hyn.

- 4.8 Mae amrywiadau rhanbarthol, gan gynnwys ffactorau fel amodau'r farchnad lafur, teithio, lleoliad colegau AB, a nifer y rhai a addysgir heblaw yn yr ysgol (EOTAS), yn debygol o effeithio ar y gwahaniaethau mewn canlyniadau a gyflawnir ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Er nad yw'n glir beth yw'r effaith hon, mae'n werth nodi bod Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran cyflawni canlyniadau 'mewn cyflogaeth', gan adlewyrchu o bosibl bod y prosiect wedi'i leoli o fewn ardal Sir Ddinbych yn Gweithio. Er bod pob tîm awdurdod lleol yn darparu profiad gwaith a gwirfoddoli i gyfranogwyr y prosiect, efallai bod Sir Ddinbych yn Gweithio yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhan hon o'i chynnig ac yn blaenoriaethu canlyniadau 'i gyflogaeth', gan gyfrannu at ei ganlyniadau llwyddiannus yn y maes hwn.
- 4.9 Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhanddeiliaid eraill o'r farn bod y targedau canlyniadau pendant yn llai o rwystr i gyflawni canlyniadau rhaglenni na chyfyngiadau y gall y prosiect weithio gyda hwy, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- 4.10 Rheswm posibl arall pam mae'r prosiect y tu ôl i rai o'i dargedau yw'r amser y mae'n ei gymryd i weithio gyda chyfranogwyr i gyflawni canlyniadau. Mae cyfranogwyr sydd â rhwystrau cymhleth niferus yn fwy tebygol o fod angen cymorth o natur hirdymor i'w galluogi i feithrin ymddiriedaeth gyda chynghorwyr a datblygu sgiliau sylfaenol fel hyder. Gall y rhain, yn eu tro, helpu i baratoi unigolion ar y llwybr tuag at EET, ond i'r rhai sydd â'r rhwystrau mwyaf, gall gymryd amser hir i gynghorwyr adeiladu'r sylfeini hyn. Gall hyn ddangos bod angen i'r prosiect adolygu ei dargedau, gan ystyried y rhwystrau niferus a chymhleth a wynebwr gan y garfan y mae'r prosiect yn ei chefnogi.
- 4.11 Yng ngoleuni hyn, efallai y bydd angen i'r gweithrediad ystyried ai ei flaenoriaeth yw darparu cymorth hirdymor i bobl ifanc NEET neu gyflawni targedau canlyniadau, gan fod y blaenoriaethau hyn yn addas i wahanol ddulliau (gan gynnwys a ddylid cyflwyno cyfyngiadau ar hyd y cyfnod y gall y gweithrediad gynorthwyo cyfranogwyr neu a ddylid lleihau'r targedau er mwyn galluogi'r prosiect i ddarparu mwy o gymorth dros y tymor hir). Er y gallai'r dull cyntaf fod yn fwy addas ar gyfer “enillion cyflym” a byddai'n galluogi'r gweithrediad i gyflawni ei dargedau cyfranogi, gallai'r dull hwn fod ar draul llwyddiant y

gweithrediad wrth leihau'r rhwystrau i EET y bydd cyfranogwyr yn eu profi, a byddai'n gwaredu nodwedd arbenigol ADTRAC sef cynorthwyo pobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

5. Goblygiadau COVID-19

- 5.1 Roedd gweithgarwch ymgysylltu gyda chyfranogwyr wedi cynnig rhai arwyddion cynnar o sut y gallai COVID-19 arwain at ganlyniadau'n cael eu dadwneud o ganlyniad i gyfleoedd swyddi yn cael eu gohirio. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle y bydd cyfranogwyr sydd wedi gadael yn ddi-waith unwaith eto. Yn ogystal, yng nghyd-destun dirwasgiad posibl, gallai niferoedd y cyfleoedd cyflogaeth fod yn llai, ac fe allai hyn gael effaith niweidiol ar allu y gweithrediad i sicrhau canlyniad cyflogaeth i bobl ifanc sy'n gadael.
- 5.2 Er bod y mater hwn y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad presennol, mae'n debygol hefyd y bydd y pandemig a mesurau cysylltiedig y cyfnod clo wedi cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl a lles cyfranogwyr cyfredol/darpar gyfranogwyr. O ganlyniad, gallai cyfran y cyfranogwyr sy'n dioddef iechyd meddwl a lles gwael fel rhwystr er mwyn symud ymlaen i EET, gynyddu o ganlyniad i'r pandemig, ac fe allai hyn gynyddu cyfran y cyfranogwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth mwy dwys gan dîm ADTRAC er mwyn eu symud tuag at y farchnad lafur.

6. Dyfodol ADTRAC

- 6.1 Yn ystod y gwerthusiad, mae rhanddeiliaid strategol wedi mynegi cryn gefnogaeth i ADTRAC. Ystyrir ei bod yn ddarpariaeth hanfodol i bobl ifanc 16–24 oed sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur. Mynegodd sawl un o'r rhanddeiliad bryderon ynghylch bylchau mawr posibl mewn darpariaeth cymorth yn lleol ar ddiwedd y cyfnod ariannu presennol.
- 6.2 Yn ogystal, mynegwyd pryderon mewn perthynas â gallu Cyd-fuddiolwyr i ddal gafael ar staff cymwys a medrus – ac o bosibl i gadw'r hyn a ddysgwyd ac a gyflawnwyd – os na fydd staff yn siŵr a gaiff y prosiect ei ymestyn neu ei ddisodli mewn rhyw ffordd. O'r herwydd, dylai archwilio cyfleoedd i gynnal y ddarpariaeth neu ddarparu map trywydd ar gyfer dewis amgen fod yn flaenoriaeth ar gyfer cam nesaf y gwaith.

7. Argymhellion

- 7.1 Isod, nodir manylion argymhellion ynghylch sut y byddai modd gwella'r gweithrediad. Fodd bynnag, nodir y gallai cyd-destun COVID-19 olygu ei bod yn anodd cyflawni rhai o'r rhain.

Targedau'r Prosiect

- 7.2 **Argymhelliad Un:** Dylai'r gweithrediad ystyried y targedau canlyniadau a chyfranogi arfaethedig yng nghyd-destun y grŵp cyfranogwyr a'r amserlenni ar gyfer cymorth, gan ystyried diwygio targedau yng nghyd-destun dirwasgiad posibl. Dylai'r gweithrediad ystyried ddiwygio targedau i lawr yng nghyd-destun yr effaith y mae COVID-19 yn debygol o'i chael ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sydd ar gael, a bydd angen ystyried yr ardaloedd sy'n gwahardd ADTRAC, megis Cymunedau yn Gyntaf.
- 7.3 **Argymhelliad Dau:** Dylai'r gweithrediad archwilio strategaethau er mwyn cynyddu cyfranogiad gan fenywod, yn ogystal ag unigolion sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill. Fodd bynnag, os nodir bod darpariaeth briodol eisoes ar gael trwy gyfrwng rhaglenni eraill megis PaCE, ni ddylai ADTRAC ddyblygu'r ddarpariaeth hon.

Darparu'r Prosiect

- 7.4 **Argymhelliad Tri:** Dylai BIPBC gyflymu'r broses o recriwtio Ymarferwyr Lles Cynorthwyol er mwyn sicrhau y gellir bodloni anghenion cyfranogwyr.
- 7.5 **Argymhelliad Pedwar:** Gallai'r gweithrediad weithio law yn llaw â Gyrfa Cymru a Gweithio dros Gymru er mwyn archwilio cyfleoedd i ddarparu cymorth cyffyrddiad ysgafn i gyfranogwyr a adawodd yn ddiweddar, ac y gallent fod mewn perygl o fod yn NEET unwaith eto o ganlyniad i COVID-19, gyda'r nod o leihau'r effaith.

Anghenion Ymchwil y Dyfodol

- 7.6 **Argymhelliad Pump:** Gallai ymchwil pellach geisio archwilio effaith hydredol y cymorth er mwyn nodi a yw'r cymorth a ddarparir gan ADTRAC yn helpu cyfranogwyr i symud yn agosach at EET yn y tymor hir, hyd yn oed os na all cyfranogwyr gyflawni canlyniad yn ystod amserlenni y gweithrediad. Ymhellach, gallai archwilio'r graddau y mae canlyniadau caled llwyddiannus a gyflawnwyd erbyn gadael ADTRAC wedi cael eu cynnal yn y tymor hir.
- 7.7 **Argymhelliad Chwech:** Dylai gwaith gwerthuso yn y dyfodol geisio archwilio tybiaethau carfan ehangach o gyfranogwyr er mwyn sicrhau bod safbwyntiau yn gynrychioladol o grŵp cyfan y cyfranogwyr. Dylai hyn gynnwys – os oes modd – ymgysylltu ag unigolion sydd wedi ymddieithrio o'r cymorth, er mwyn deall meysydd posibl ar gyfer gwelliant.

- 7.8 **Argymhelliad Saith:** Ceir achos dros awdurdodau lleol yn gweithio gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ogystal â BIPBC, er mwyn nodi cyfleoedd i ymestyn ADTRAC neu ei ddisodli gyda darpariaeth debyg pan fydd cylch cyllido cyfredol ESF yn dod i ben.
- 7.9 **Argymhelliad Wyth:** Gan adlewyrchu llwyddiannau ADTRAC wrth sicrhau canlyniadau meddal, ond hefyd, ei drafferthion wrth gyflawni targedau canlyniadau caletach, mae'n ymddangos bod ADTRAC yn llwyddiannus wrth symud cyfranogwyr yn agosach at EET, ond efallai nad yw'n llwyddiannus wrth gyflawni canlyniadau cyflogaeth ar ei ben ei hun. Os cynllunnir rhaglen i olynu ADTRAC, gellid ystyried rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n agosach i'r farchnad lafur, megis lleoliadau profiad gwaith a gwirfoddoli. Byddai'r ddarpariaeth hon yn datblygu'r canlyniadau meddal a gyflawnwyd, a byddai'n cynorthwyo cyfranogwyr i sicrhau gwaith, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn parhau i gael cymorth mentora wrth iddynt symud i brofiad gwaith. Neu, gellid ystyried cyfeiriadau i ddarpariaeth arall ar gyfer unigolion sy'n agosach i'r farchnad lafur yn ganlyniad llwyddiannus ar gyfer y ddarpariaeth ar gyfer unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

Awduron yr Adroddiad: Chloë Maughan, Tom Marshall & Endaf Griffiths / Wavehill

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd



Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai prosiect ADTRAC o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad, cysylltwch â:

Tom Marshall, Wavehill

Ffôn: 01545 571711

E-bost: tom.marshall@wavehill.com

I gael rhagor o wybodaeth am ADTRAC, cysylltwch â:

Sara Williams, Rheolwr Rhanbarthol, Grŵp Llandrillo Menai

Ffôn 01492 546666

E-bost: sara.williams@gllm.ac.uk

Mae Adtrac yn cael ei arwain gan:



Mae Adtrac yn cael ei ddarparu gan y partneriaid a ganlyn:

